SYRFËWR

£20,000 i £40,000+

Diffiniadau'r Geiriadur

Siart-red-ig — Ansoddair
(Am bobl sy'n gwneud rhan o swydd) ar ôl cwblhau r arholiadau a'r hyfforddiant angenrheidiol

Syr-fë-wr — Enw
Person sy n mesur ac yn cofnodi manylion darnau o dir yn ei waith

DISGRIFIAD

Mae syrfëwr yn delio gyda phrynu, gwerthu, prisio a datblygu tir. Gall y swydd fod yn un amrywiol iawn a chyffrous. Gallai arbenigeddau gynnwys cynllunio trefi, dinasoedd neu waith amgylcheddol.

RHINWEDDAU PERSONOL

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac ar bapur)
- Sgiliau trafod rhagorol
- Sgiliau dadansoddi rhagorol
- Y gallu i weithio'n dda fal rhan o dîm

HYFFORDDIANT & CHYMWYSTERAU

Fel sy'n wir am lawer o swyddi, mae sawl llwybr i mewn i'r proffesiwn. Un enghraifft o lwybr mynediad posibl yw:

SAFLE IAU

Syrfëwr Iau
£20,000
Gradd wedi'i hachredu gan RICS gyda RICS ATC

SAFLE CANOLIG

Syrfëwr
£24,000
Fel ar y chwith gyda pheth profiad

SAFLE HŶN

Syrfëwr Hŷn
£40,000
Fel ar y chwith gyda RICS APC a chyfrifoldebau rheoli

RICS = Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig
ATC = Asesiad o Gymhwysedd Technegol
APC = Asesiad o Gymhwysedd Proffesiynol

GWYBODAETH BELLACH

www.connexions-direct.com
www.findyourway.co.uk
www.assetskills.org
www.apprenticeship.org
www.rics.org

Swyddi cysylltiedig:
Cynllunydd Tref, Technegydd Tirfesur, Swyddog Ystadau Llywodraeth Leol.

Astudiaeth Achos

Ar ôl gadael ysgol, gweithiais gyda Syrfëwyr Siartredig.

Mwynheais, felly fe hyfforddais innau hefyd. Dechreuais gyda thîm eiddo British Rail, yn rhentu siopau mewn gorsafoedd ag ati, ac yna ymunais â'r tîm datblygu. Gwnaethom gais am hawl cynllunio ar hen iard nwyddau a gorsafoedd, ac fe helpais hyd yn oed ar ddatblygiad mawr Broadgate yn y ddinas.

Treuliais chwe mlynedd yn y Docklands yn Llundain yn gweithio gyda Chynllunwyr, Peirianwyr a Phenseiri ar bethau fel y Jubilee Line a Canary Wharf. Rheolais gyllideb o £14m ar gyfer ffyrdd cefnogi Canolfan Arddangos Excel.

Yna dechreuais fy musnes fy hun. Roeddem yn adeiladu prosiectau adfywiad i gynghorau ac roeddwn yn arwain tîm o gynllunwyr ac adeiladwyr, yn gweithio gyda'r asiantau a werthodd yr adeiladau a'r banciau er mwyn cael benthycíadau i orffen y prosiectau.

Gallai diwrnod arferol gynnwys gweithio yn y swyddfa neu wisgo fy esgidiau gwaith i ymweld â safle adeiladu. Mae'n amrywiol a diddorol.

Mae llu o wahanol feysydd y gall Syrfëwyr Siartredig ddelio â hwy, o ffermydd i swyddfeydd yn y ddinas – ac yn fyd-eang hefyd

John Moss

asset skills